**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-579
Ein cyf/Our ref CS/05188/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

21 Hydref 2014

Annwyl William

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch deiseb Cymdeithas Adareg Prifysgol Caerdydd am y cyllid ar gyfer monitro gwylogod ar Ynys Skomer.

Mae ardaloedd bridio pwysig yng Nghymru ar gyfer adar môr, gan gynnwys gwylogod, ac rwy'n cydnabod pwysigrwydd monitro'r amrywiadau ym mhoblogaethau'r adar hyn. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gontract gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur i gynnal arolygon blynyddol o'r adar môr ar Ynys Skomer, gan gynnwys gwylogod.

Gwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penderfynu, yn gynharach eleni, peidio ag adnewyddu contract penodol gyda Phrifysgol Sheffield i gynnal arolwg o'r gwylogod ar Skomer. Oherwydd y cynnydd hirdymor yn niferoedd y gwylogod ar yr ynys, a'r ffaith bod y rhywogaeth hon yn mynd i gael ei monitro o hyd o dan gontract y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, rwy'n dawel fy meddwl na fydd diffyg data na gwybodaeth am yr adar hyn. Wrth gwrs, bydd CNC yn parhau i fonitro ac adolygu'r anghenion a gofynion yn hyn o beth.

Yn ddiweddar, rhoddais fy sêl bendith i estyn ffiniau'r tair Ardal Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer adar môr sy'n bridio a diweddaru'r rhestr o rywogaethau perthnasol. Mae'r Ardaloedd Gwarchodaeth bellach yn cynnwys yr ardaloedd morol sy'n hanfodol bwysig ar gyfer bwydo, llyfnu ac ymddygiadau eraill yn ystod tymor bridio'r adar. Erbyn hyn, mae'r môr wrth ymyl yr ardaloedd nythu'n mwynhau'r un lefel o warchodaeth â'r safleoedd nythu eu hunain, a bydd hyn yn siŵr o gynnal twf poblogaeth y gwylogod ac adar môr eraill. Yn ogystal, bydd estyn yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig hyn yn gwella profiad ymwelwyr yn y dyfodol, yn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

enwedig y rheini sy’n mynd ar dripiau i fwynhau bywyd gwyllt y mannau hynod hyn.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources